Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
20 Medi 2021

SL(6)043 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020").

Diwygiodd Rheoliadau 2020 Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws:

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, ac
(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Mae Rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 yn darparu bod y diwygiadau hynny yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 30 Medi 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2022. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2022.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Fe'u gwnaed ar: 06 Medi 2021
Fe'u gosodwyd ar: 08 Medi 2021
Yn dod i rym ar: 29 Medi 2021

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
20 Medi 2021

SL(6)045 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (c.32)) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio. Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("y Ddogfen"). Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2021 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2). Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 (erthygl 3).

Mae'r Ddogfen yn ymwneud ag athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig wrth ddarparu addysg gynradd neu uwchradd. Mae'r ddogfen yn cadarnhau bod codiad o 1.75% wedi'i gymhwyso i'r holl bwyntiau graddfa a lwfansau statudol, a bydd yr holl godiadau cyflog yn gymwys o 1 Medi 2021.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysg 2002
Fe'u gwnaed ar: 08 Medi 2021
Fe'u gosodwyd ar: 09 Medi 2021
Yn dod i rym ar: 30 Medi 2021